# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 6 Chwefror 2018

Amser: 08.35 - 09.03

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC, Llywydd (Cadeirydd)<br>Julie James AC<br>Paul Davies AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Gareth Bennett AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Rhuanedd Richards, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

# 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

# 2 Cofnodion o'r cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod ar gyfer eu cyhoeddi.

# 3 Trefn busnes

## 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

Ychwanegodd y Llywodraeth ddau ddatganiad i agenda dydd Mawrth ar gyfer y Cyfarfod Llawn: Datganiad gan y Prif Weinidog: Y Polisi Masnach - Materion Cymru (45 munud) a Datganiad gan Arweinydd y Tŷ: Canmlwyddiant y Bleidlais i Fenywod (45 munud).

Nododd Rhun ap Iorwerth fod y Llywodraeth wedi trefnu pum datganiad yr wythnos hon ond dim un ddadl, yn cynnwys Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Adroddiad Blynyddol y Prif Swyddog Meddygol 2016/17, a fu'n ddadl bob tro o'r blaen.

- Ni fydd Cyfnod Pleidleisio.

**Dydd Mercher**

Atgoffodd y Llywydd y Rheolwyr Busnes y byddai'r fformat ar gyfer Cynnig Comisiwn y Cynulliad: Ymgynghoriad ar Ddiwygio'r Cynulliad fel a ganlyn:

  - Y Llywydd yn agor a chloi (cyfanswm o 8 munud)
  - Siaradwyr eraill (5 munud)
  - Dim gwelliannau nac ymateb gan y Llywodraeth

- Byddai'r Cyfnod Pleidleisio yn cael ei gynnal cyn y Ddadl Fer.

## 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

Gofynnodd Rhun ap Iorwerth am gefndir y datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Gwasanaethau sy'n Addas i'r Dyfodol - Papur Gwyn ar 27 Chwefror, ac a allai fod yn ddadl yn lle datganiad. Dywedodd Arweinydd y Tŷ fod Ysgrifennydd y Cabinet wedi gofyn am ddatganiad.

Dywedodd Julie James wrth y Rheolwyr Busnes mai hi fyddai'n ateb y cwestiynau i'r Prif Weinidog ar 27 Chwefror, gan y byddai'r Prif Weinidog i ffwrdd ar fusnes yn ymwneud â dydd Gŵyl Dewi.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 28 Chwefror 2018 -**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (30 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

## 4 Y Pwyllgor Busnes

### 4.1 Cwestiynau Llafar y Cynulliad

Ni chytunodd y Rheolwyr Busnes ar unrhyw feysydd diwygio ar gyfer cyflwyno. Cytunodd y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd i addasu eu blaenoriaethau wrth gadeirio fel:

- na fyddent yn galw cynifer o gwestiynau atodol ac, o'r herwydd, byddant yn galw mwy o'r cwestiynau a gyflwynwyd;
- bydd llai o flaenoriaeth o ran galw Arweinwyr/Llefarydd y Pleidiau ar gwestiynau eraill; a
- bydd disgwyl i Arweinwyr/Llefarwyr y Pleidiau a Gweinidogion fod yn fwy cryno.

Roedd gan y Rheolwyr Busnes safbwyntiau gwahanol ynghylch pa flaenoriaethu y dylid i roi i gynnal adolygiad ehangach o'r Rheolau Sefydlog, felly gofynnodd y Llywydd i'r

Ysgrifenyddiaeth gyflwyno papur cwmpasu ar sut y byddai adolygiad llawn yn edrych a’r adnoddau fyddai ynghlwm wrth hynny.